Taflen ffeithiau

Rhoi ar ôl marwolaeth

Beth y gellir ei roi ar ôl marwolaeth?

Organau

- Arennau
- Calon
- Ysgyfaint
- Afu
- Pancreas
- Coluddyn bychan

Meinwe

- Cornbilennau
- Croen
- Asgwrn
- Tendonau
- Cartilag
- Falfiau'r galon

- Ar ôl marw, gall un person helpu hyd at wyth person trwy roi ei organau. Gallant fod o fudd i lawer mwy trwy roi meinwe, megis croen, asgwrn, cornbilennau neu dendonau.
- Rydych yn cofnodi eich addewid i roi organau a meinwe ar gyfer trawsblaniadau ar ôl i chi farw yng Nghofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG.
- Gallwch ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG ar unrhyw oedran.
- Er bod 90% o bobl yn dweud eu bod yn cefnogi rhoi organau, dim ond 27% sydd wedi ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG mewn gwirionedd.
- Dylech ddweud wrth eich teulu beth yw eich dymuniadau oherwydd gofynnir iddyn nhw gadarnhau'r rhain ar ôl i chi farw.
- Mae cyflwr corfforol y rhoddwr yn ffactor bwysig. Dim ond mewn dau amgylchiad - lle mae HIV neu CJD wedi'u cadarnhau neu'n dybiedig - nid oes unrhyw bosibilrwydd o roi organau. Dan yr holl amgylchiadau eraill, bydd swyddogion gofal iechyd yn gwneud y penderfyniad ynghylch a yw organau a meinwe yn addas ar gyfer trawsblaniadau, gan roi ystyriaeth i'ch hanes meddygol.
- Gan fod rhaid trawsblannu organau'n gyflym iawn ar ôl i roddwr farw, dim ond pobl sydd wedi marw yn yr ysbyty all eu rhoi. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn marw yn yr ysbyty, ond gartref.
- Mae meddygon a nyrsys wedi ymroi i wneud popeth posibl i arbed eich bywyd. Tynnir organau bob amser gyda'r gofal a'r parch mwyaf.
- Er bod angen trawsblaniad organ ar fwy na 10,000 o bobl yn y DU, dim ond tua 3,000 o drawsblaniadau sy'n digwydd bob blwyddyn. Mae mwy na 400 o bobl yn marw tra bônt yn aros am drawsblaniad organ bob blwyddyn. Mae tua 500 yn marw, oherwydd, tra'u bod yn aros, maent yn mynd yn rhy sâl i dderbyn trawsblaniad ac mae'n rhaid tynnu eu henw oddi ar y rhestr.
- Mae'r rhan fwyaf o organau a roddir yn dod oddi wrth bobl sy'n marw ar beiriant anadlu mewn uned gofal dwys yn dilyn anaf difrifol i'r pen neu i'r ymennydd, damwain ddifrifol megis gwrthdrawiad car neu strôc.
- Mae'n rhaid rhoi'r rhan fwyaf o feinwe o fewn 24 awr ar ôl marwolaeth, ond gellir ystyried mwy o bobl ar gyfer rhoi meinwe oherwydd, yn wahanol i roi organau, nid oes raid iddyn nhw farw yn yr ysbyty.